**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - P/FM -/3394/17

Ann Jones AC
Cadeirydd
Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
CraffuPW@cynulliad.cymru

4 Medi 2017

Annwyl Ann,

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 11 Medi yn gofyn am wybodaeth bellach ar ôl imi fynychu'r Pwyllgor Craffu ar 14 Gorffennaf.

Amgaeir ymateb ysgrifenedig sy'n ymdrin â'r cwestiynau a danlinellir yn eich llythyr.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog - gwybodaeth ychwanegol**

***Bil yr Undeb Ewropeaidd (ymadael):***

*Eich dadansoddiad o'r Bil, gan gynnwys lle y credwch y gallai fod yn bosibl ei ddiwygio i liniaru pryderon Llywodraeth Cymru, ac, i'r gwrthwyneb, manylion unrhyw feysydd y teimlwch sy'n ddiffygiol i'r graddau na ellir eu newid.*

**Ymateb:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei dadansoddiad manwl o'r Bil yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 12 Medi 2017.

Mae ein prif wrthwynebiadau'n ymwneud â chymalau 7-9 (sy'n rhoi i Weinidogion y Goron bwerau annerbyniol o eang i wneud rheoliadau, gan gynnwys y gallu i ddiwygio cyfraith ddatganoledig a'r setliad datganoli heb gydsyniad), cymal 10 (sy'n rhoi effaith i Atodlen 2 ac sy'n cyfyngu'n afresymol ar bwerau cywiro Gweinidogion Cymru i gyfraith ddomestig yr UE) a chymal 11 sy'n cyflwyno cyfyngiad newydd ar gymhwysedd deddfwriaethol.

Mae Prif Weinidogion Cymru a'r Alban hefyd wedi anfon llythyr at y Prif Ysgrifennydd Gwladol yn amlinellu eu gwelliannau arfaethedig i'r Bil (19 Medi 2017). Gwneuthum ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn am ein cynigion ar yr un diwrnod. Nododd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol fy mod yn gobeithio gosod memorandwm atodol yn nes ymlaen, i adlewyrchu'r gwelliannau y bydd Senedd y DU'n cytuno â hwy, sy'n hanfodol os yw Llywodraeth Cymru am allu bod mewn sefyllfa i argymell bod cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei roi. Pe bai'r gwelliannau arfaethedig yn cael eu gwneud, byddent yn galluogi Llywodraeth Cymru i argymell bod cydsyniad yn cael ei roi.

*Dolenni*

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), 12 Medi 2017;
http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11177/gen-ld11177-e.pdf

Gohebiaeth - Gwelliannau Arfaethedig i Fil Yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), 19 Medi 2017;
http://gov.wales/docs/cabinetstatements/2017/170919-joint-letter-cy.pdf

*P'un a oes unrhyw amgylchiadau lle y byddech yn fodlon derbyn cadw rhai pwerau dros dro gan Senedd y DU, ar yr amod bod ymrwymiad clir yn cael ei roi i ddatganoli'r pwerau hynny o fewn amodau penodedig.*

**Ymateb:**

Rwyf erioed wedi bod yn glir y gallai fod angen fframweithiau polisi i'r DU gyfan mewn rhai meysydd datganoledig, ond y prif bwynt yw y dylai'r rhain fod ar sail trafod a chytundeb, yn hytrach na chael eu gorfodi.

*Dolenni*

Datganiad Ysgrifenedig – Brexit a Datganoli, 15 Mehefin 2017. [http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/brexitdevolution/?lang=cy]

***Trafnidiaeth:***

*Hoffai'r Aelodau gael eglurhad pellach ar y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i asesu gallu porthladdoedd Cymru i ymdrin yn effeithiol ag unrhyw newidiadau i drefniadau tollau ar ôl i'r DU adael yr UE, yn enwedig o ystyried cyd-ddibyniaeth porthladdoedd Cymru ac Iwerddon. Mae aelodau'n ymwybodol eich bod wedi cwrdd â Llywodraeth Iwerddon i drafod gadael yr UE, yn benodol trwy'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar i gael rhagor o wybodaeth am sut mae, a sut y bydd Llywodraeth Cymru, yn ymgysylltu â Llywodraethau Iwerddon a'r DU yn benodol ar fater porthladdoedd.*

**Ymateb:**

Hoffwn gyfeirio'r Pwyllgor at yr ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i adroddiad Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad yn sgil ei ymchwiliad ar Brexit a phorthladdoedd.

***Datblygu Economaidd:***

*Croesawodd yr Aelodau eich ymrwymiad i ystyried cyhoeddi 'Strategaeth Ffyniannus a Diogel' Llywodraeth Cymru cyn diwedd tymor yr haf, er mwyn caniatáu amser i bwyllgorau ystyried ei gynnwys dros y toriad.*

*Mewn perthynas â'r strategaeth, byddai'r Aelodau'n gwerthfawrogi rhagor o fanylion ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau, wrth fabwysiadu dull rhanbarthol, y bydd gweithio trawsffiniol yn ffactor yn y ffordd y caiff y polisi hwnnw ei ddatblygu a'i symud ymlaen.*

**Ymateb:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi strategaeth genedlaethol, drawslywodraethol "Ffyniant i Bawb" sy'n ymdrin â gweithgarwch dros weddill y cyfnod ac sy'n gosod y sylfeini ar gyfer camau gweithredu pellach dros y tymor hir. Mae hyn yn cynnwys ei ymagwedd at weithio rhanbarthol a chydweithredu trawsffiniol. Mae'r strategaeth "Ffyniant i Bawb" yn cynnig y fframwaith ac yn sail ar gyfer popeth y byddwn yn ei wneud, yn enwedig wrth weithio'n wahanol trwy gyfuno rhaglenni a gweithio ar draws ffiniau i gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth. I gefnogi'r strategaeth hon ac i roi manylion pellach am y camau gweithredu ym maes busnes, sgiliau a seilwaith yn y strategaeth, bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn cyhoeddi Cynllun Datblygu Economaidd yn nes ymlaen yr hydref hwn. Bydd hwn yn cynnwys mwy o fanylion am y dull gweithredu rhanbarthol a chydweithredu trawsffiniol yn ogystal â materion eraill.

***Ynni:***

*Croesawodd yr Aelodau eich ymrwymiad i ystyried effaith y cynnydd mewn ardrethi busnes ar gynlluniau ynni hydro cymunedol. Fel rhan o'n trafodaeth, cytunodd Simon Thomas AC i roi rhagor o wybodaeth i chi am enghraifft benodol. O gofio natur fasnachol sensitif bosibl y wybodaeth hon, fe'i darparwyd fel atodiad heb ei gyhoeddi i'r llythyr hwn.*

**Ymateb:**

O ran prosiectau ynni cymunedol yng Nghymru, mae gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) gyfrifoldeb llwyr dros asesu'n annibynnol werthoedd ardrethol eiddo annomestig yng Nghymru. Mae'r fethodoleg, y sylfaen dystiolaeth a'r dulliau asesu'n cael eu teilwra i'r holl fathau o eiddo a lle bo modd mae VOA wedi cytuno ar y dulliau hyn â chynrychiolwyr y diwydiant.

Cafodd ailwerthusiad 2017 ei gynnal ledled Cymru a Lloegr ac ni allaf gyflwyno sylwadau ar yr asesu, y fethodoleg na'r prosesau a ddefnyddiwyd. Mater i VOA yw sicrhau cysondeb ar draws pob eiddo yng Nghymru a Lloegr.

Rhan allweddol o ddatblygu ein llwybrau datgarboneiddio fydd yr ynni yr ydym yn ei ddefnyddio ac yn ei gynhyrchu. Mae gan ynni adnewyddadwy ran bwysig i'w chwarae o ran cyflawni ein cyllidebau carbon. I ddarparu ynni carbon isel diogel a fforddiadwy, mae arnom angen cymysgedd o wahanol dechnolegau a meintiau, o rai o raddfa gymunedol i brosiectau mawr.

Rydym yn cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol a lleol trwy ein Gwasanaeth Ynni Lleol sy'n cynnig cymorth ariannol a thechnegol i fentrau cymdeithasol a busnesau bach a chanolig ledled Cymru i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau ynni adnewyddadwy eu hunain. Gall datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy sydd o dan berchnogaeth leol fod yn broses gymhleth. Mae'r gwasanaeth Ynni Lleol yn darparu cymorth cynhwysfawr i helpu sefydliadau bach trwy'r broses hon.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gweithredu i ddarparu cymorth ychwanegol i dalwyr ardrethi annomestig y mae'r ailbrisio wedi effeithio arnynt gan gynnwys prosiectau ynni cymunedol, trwy ymestyn y Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach a chyflwyno'r cynllun Rhyddhad Trosiannol, ar gost o ryw £120 miliwn i Lywodraeth Cymru. Byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus i ddarparu cymorth ychwanegol ac asesu'r buddion a ddisgwylir.

Daw cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach newydd parhaol i rym o Ebrill 2018 gan roi i fusnesau bach y sicrwydd y mae arnynt ei angen er mwyn cynllunio at y dyfodol. Fel rhan o ddatblygu'r cynllun hwn, mae ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi. Mae hwn i'w weld isod:
www.consultations.gov.wales/consultations/delivering-tax-cut-small-businesses-new-small-business-rates-relief-scheme-wales

Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried unrhyw dystiolaeth a ddarperir i gefnogi'r achos dros ddarparu cymorth i brosiectau ynni cymunedol ac fe gaiff ei hystyried ymhellach fel rhan o'r gwaith i fwrw ymlaen ag argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ynni Dŵr.

***Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau.***

*Yn olaf, gwnaethoch gytuno i ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch sut y byddai'r trefniadau ar gyfer dyfarnu masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau yn cael eu symud ymlaen pe bai'r broses gaffael yn profi anhawster, gan gynnwys pwy fyddai'n gyfrifol am hyn.*

**Ymateb:**

Nes i swyddogaethau masnachfreintiau rheilffyrdd gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth fydd yr awdurdod breinio o hyd ar gyfer holl fasnachfraint Cymru a'r Gororau. Nid yw Llywodraeth y DU bellach yn disgwyl cwblhau'r trosglwyddo tan 2018.

Os aiff y caffael presennol i anawsterau, er mwyn i weithrediadau trenau barhau y tu hwnt i Hydref 2018 byddai angen naill ai ymestyn contract masnachfraint bresennol Trenau Arriva Cymru (ATW) (mae modd gwneud hyn am bum mlynedd) neu gytuno ar Ddyfarniad Uniongyrchol ag ATW. Cyn i'r gwaith o drosglwyddo swyddogaethau'r fasnachfraint gael ei gwblhau, gallai Gweinidogion Cymru geisio cyflawni rôl mewn unrhyw rai o'r prosesau hyn ac ail-gaffael y fasnachfraint wedyn trwy gystadleuaeth agored.

***<u>Newyddiaduraeth leol iawn:</u>***

*Cytunoch hefyd i roi ystyriaeth bellach rhoi cyngor a chefnogaeth i newyddiadurwyr lleol iawn a'r rheiny sydd am greu ffynonellau newyddion newydd, o ystyried y diffyg cymorth pwrpasol sydd ar gael;*

**Ymateb:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi BBaChau ledled Cymru a dyna paham yr ydym yn buddsoddi £86m hyd at 2020 yn ein rhaglen a ariennir gan Ewrop sef Busnes Cymru ac mae gan BBaChau fynediad i'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth y mae arnynt eu hangen i'w helpu i ddechrau, tyfu a ffynnu. Mae cam diweddaraf Busnes Cymru'n anelu at greu 10,000 o fusnesau newydd, 28,300 o swyddi newydd a darparu cymorth i helpu pobl i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf.

Busnes Cymru yw gwasanaeth cymorth dwyieithog Llywodraeth Cymru, a gafodd ei lansio yn Ionawr 2013 a'i gyflwyno ar ei newydd wedd yn Ionawr 2016. Nod y gwasanaeth yw yn ei gwneud yn haws i fusnesau a darpar entrepreneuriaid yng Nghymru gael gafael ar yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth y mae eu hangen arnynt er mwyn dechrau busnesau a'u datblygu ymhellach.

Mae Busnes Cymru'n cynnig un man cyswllt lle gall busnesau ac entrepreneuriaid gael cyngor a chymorth gan y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, a gellir cael gafael arno trwy http://busnescymru.gov.cymru a sianeli'r cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig; llinell gymorth 03000 6 03000; a rhwydwaith o swyddfeydd a leolir ledled Cymru.

Byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn fanwl unrhyw gynnig i sefydlu cymorth arall sy'n targedu BBaCh lleol iawn sy'n dechrau a fyddai'n ychwanegu gwerth sylweddol dros y ddarpariaeth sydd ar gael eisoes trwy Fusnes Cymru.

Fel yr amlinellir yn Ffyniant i Bawb, rydym wedi ymrwymo i weithio mewn ffordd fwy integredig â ffocws mwy pendant i gynnig y cymorth iawn i bobl a busnesau yn y ffordd orau bosibl. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y mae cymorth i fusnesau weithiau'n cwmpasu gofynion gwahanol iawn yr economi wybodaeth, yr economi gwaith achysurol ac entrepreneuriaeth greadigol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar ddatblygu Cymru Greadigol yn ystyried sut i fwrw ymlaen â'r materion hyn.

***Staff y GIG:***

*Cytunoch hefyd i roi ystyriaeth bellach i ffyrdd y gallai Llywodraeth Cymru annog a chefnogi staff medrus y GIG sy'n dod i ddiwedd eu gyrfa i ysbrydoli pobl ifanc i ystyried gyrfa yn y GIG yng Nghymru ac i drosglwyddo eu profiad, eu gwybodaeth a'u sgiliau cyn iddynt ymddeol.*

**Ymateb:**

Mae'n bwysig inni werthfawrogi sgiliau, gwybodaeth a phrofiad unigolion drwy gydol eu gyrfa er mwyn cefnogi cenedlaethau system iechyd Cymru yn y dyfodol. Mae llawer o'r gweithlu presennol yn cymryd rhan mewn nifer o fentrau a digwyddiadau i hybu gyrfaoedd yn y GIG. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried y potensial ar gyfer y cyfleoedd gwell sydd i'w cyflwyno a fydd yn harneisio profiad a gwybodaeth y rhai sydd â gyrfa aeddfed yn y GIG i drosglwyddo eu sgiliau i unigolion llai profiadol.